

CYNGOR BRO PONTARFYNACH

Nos Iau 14eg Ionawr, 2016

Cynhaliwyd cyfarfod yn Ysgol Mynach gyda'r canlynol yn bresennol:

Rhodri Jenkins (Cadeirydd); Brython Davies, Jane Hopkins, Alun Jenkins, Phil Lloyd, Elise Powell a'r Cyng. Rhodri Davies.

1. YMDDIHEURIADAU

Eluned Evans

2. COFNODION 26ain Tachwedd, 2015

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir. Cynigiwyd cywirdeb gan Elise Powell ac eiliwyd gan Alun Jenkins. Nodir y gohiriwyd cyfarfod ar y 7fed o Ionawr hyd y 14eg o Ionawr, 2016.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION

- (a) Dŵr yng Nghwmystwyth
Y Clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir i ddilyn lan ymateb neu gweithredu ar y sefyllfa fod y dŵr yn llifo i'r ffordd ger Gate Cottage yn achosi problemau.
- (b) A15029 Alterations and extension to an existing dwelling, including outbuildings and garden structures. Tynglog, Cwmystwyth.
Y cais cynllunio wedi'i gadarnhau.
- (c) Blychau Ffon BT
Arwyddodd y Cadeirydd y cytundeb rhwng y Cyngor Bro a BT er mwyn pwrcasu'r blychau ffon yn Nhrisant a Chwmystwyth a chytunwyd ar eiriad ar gyfer cytundeb i drosglwyddo Blwch Ffon yng Nghwmystwyth i Gofnodion Cwmystwyth.
Cytunwyd i wneud taliad o £2.00 (£1.00 yr un am y blychau) i BT, cynigiwyd y taliad gan Phil Lloyd ac eiliwyd gan Elise Powell.
- (d) Materion angen dilyn lan gyda Cyngor Sir Ceredigion gan na dderbyniwyd ymateb:

Yr angen i gael y peiriant ysgubo (sweeper) i lanhau'r ffordd a'r palmant ym Mhontarfynach.
Ymholiad am balmant tu allan i Ysgol Mynach.
Coed ymyl y chwarel gyferbyn a'r llyn yn Nhrisant yn ymestyn allan i'r ffordd.
Coeden leylandii yn ymestyn allan i'r palmant gyferbyn a'r Gofgolofn ym Mhontarfynach.
Arwyddion 'damwain' ar y ffordd o Bontarfynach i Gwmystwyth angen cael eu casglu.
- (ch) Wal ym Mhontartwll, Cwmystwyth wedi cwmpo ers peth amser a'r Clerc i gysylltu gyda'r Comisiwn Coedwigaeth i ymholi beth yw'r sefyllfa.

4. GOHEBIAETH

- (a) Derbyniwyd gohebiaeth wrth Bentir Pumlumon am Raglen Arweinyddiaeth Cynllun Datblygu Gwledig RDP Leader Programme drwy Gynnal y Cardi.

- (b) Adroddodd y Clerc ei bod wedi derbyn sic o £508.00 wrth Gronfa Ymddiriedolaeth Gymunedol Fferm Wynt Cefn Croes mewn ymateb i gais y Cyngor Bro am grant i ariannu Safle We'r Cyngor Bro am ddwy flynedd, 2016 a 2017.
- (c) Praesept
Yn dilyn ymholiad gan Gyngor Sir Ceredigion cytunwyd i gadw swm y praesept fel y flwyddyn flaenorol sef £3,500 am y flwyddyn 2016/17.
- (ch) Adroddodd y Clerc y derbyniwyd llythyr gan Swyddogion Eglwys Newydd yr Hafod yn ymholi a fyddai'r Cyngor Bro yn fodlon danfon llythyr o gefnogaeth i gais yr Eglwys ar gyfer nawdd ariannol i gael ail doi'r Eglwys. Deallir y gobeithir y byddai ail doi'r adeilad wedi medru aros am flwyddyn neu flwydd arall ond mae gwir angen gwneud y gwaith ar frys. Cytunwyd i'r cais a bod y cleric yn danfon llythyr o gefnogaeth at Swyddogion yr Eglwys.

5. CYLLID

RHODDION 2016

Trafodwyd i bwy a swm y rhoddion i'w dosbarthu a phenderfynwyd ar y canlynol:

£50.00	Y Ddolen
£50.00	Ciwb Ffermwyr Ifainc Trisant
£50.00	Ambiwlans Awyr
£30.00	Cylch Meithrin Penllwyn

Cynigiwyd y taliadau gan Alun Jenkins ac eiliwyd gan Jane Hopkins.

6. UNRHYW FATER ARALL

- (a) Mae'r arwyddion ffyrdd ger y Gof Golofn wedi cael ei niweidio ac angen ei hatgyweirio ar frys.
- (b) Yr angen i dynnu sylw Cyngor Sir Ceredigion ar y materion isod:
- (c) Dail coed wedi gwasgaru ar y ffordd rhwng Rhydymled a Pumlumon View yn Nhrisant ac yna yn cronni mewn twrun wrth ymyl y ffordd.
- (ch) Tyllau peryglus ar y ffordd ger Lletysynod, Ar Rhiw Ysgoldy Goch a thu allan i Ysgoldy Goch yng Nghwmystwyth.
- (d) Y ffordd yn rhoi ar y llaw dde wrth fynd mewn i New Row o ochr Lletysynod.
- (dd) Cyfeiriwyd unwaith yn rhagor at y ffaith fod arwydd 'Ar Werth' ar dy Rhiw Mynach yn amharu ar welededd gyrrwyr wrth ymuno gyda'r gyffordd.
- (e) Trafodwyd sefyllfa doddi halen ar y ffordd i ac yng Nghwmystwyth a dangoswyd pryder na fyddid yn cael gwasanaeth llawn eleni eto gan y Cyngor Sir.

- (f) Cyfeiriwyd at broblem sydd wedi codi yng Nghlangorslwyd, Rhos-y-Gell ble mae dŵr yn rhedeg o'r ffordd i'r safle. Deallir fod y Cyngor Sir yn ymwybodol o'r sefyllfa.
- (g) Llwybr troed o'r Rheilffordd i'r Woodlands: Er nad oes cyllid ar gael ar gyfer y rhan nesaf o'r cynlluniau deallir fod y Cyngor Sir yn parhau i ymchwilio am ffyrdd eraill o gyllido'r llwybrau ond ar hyn o bryd nid oes amserlen bendant ar gyfer y cynlluniau.
- (h) Ffordd o Pontarfynach i Gwmystwyth, yr angen i barhau i ofyn i'r Cyngor Sir i ddodi rhwystrau damwain ar ochr y ffordd yn y man ble mae tâp oren wedi doddi ar hyn o bryd.

7. DYDDIAD CYFARFOD NESAF

Nos Iau 4ydd Chwefror, 2016 yn Ysgol Mynach am 7.30 y.h.